

# AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL

1 Chwefror 2017

Yn Bresennol: Cynghorydd M James (Cadeirydd)  
Mr A Archer, Cynghorydd P Harries, Mrs G Hayward, Cynghorydd S Hudson, Cynghorydd R Kilmister, Cynghorydd RM Lewis, Cynghorydd PJ Morgan, Cynghorydd R Owens, Cynghorydd D Rees, Mr AE Sangster a'r Cynghorydd M Williams.

*[Cyrrhaeddodd Ms C Gwyther adeg ystyried adroddiad rhif 01/17 Cynllunio Cyllideb Ddrafft]*

(Swyddfa'r APC, Parc Llanion, Doc Penfro: 10.00am – 12.30pm)

## 1. Ymddiheuriadau am absenoldeb

Derbyniwyd ymddiheuriadau am fod yn absennol oddi wrth y Cynghorydd ML Evans, Cynghorydd L Jenkins a'r Cynghorydd A Wilcox.

## 2. Datgan Buddiannau

Datganodd y Cynghorwyr P Harries ac M Williams bod ganddynt fuddiant yn adroddiad rhif 02/17 Canolfan Ymwelwyr Trefdraeth. Serch hynny, roedd y ddau wedi aros i mewn yn y cyfarfod adeg ystyried yr adroddiad. Eglurodd y Cynghorydd Harries ei fod wedi cael goddefeb gan y Pwyllgor Safonau i ganiatáu iddo siarad a phleidleisio ar faterion sy'n ymwneud â Chanolfan Ymwelwyr Trefdraeth.

## 3. Cofnodion

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 30<sup>ain</sup> o Dachwedd 2016 i'w cadarnhau a'u llofnodi.

**PENDERFYNWYD** cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 30<sup>ain</sup> o Dachwedd 2016.

## 4. Materion yn codi o'r cofnodion:

Cynllun Corfforaethol 2017/18 (Cofnod 8)

Dywedodd y Prif Weithredwr y byddai trosolwg o'r Cynlluniau a gynhyrchwyd gan yr Awdurdod yr oedd yr Aelodau wedi gofyn amdano yn y cyfarfod diwethaf yn cael ei gyflwyno yn y cyfarfod nesaf o bob un o'r Pwyllgorau Adolygu.

## NODWYD

## 5. Adroddiadau o amrywiol gyfarfodydd Pwyllgorau'r Awdurdod

Cyflwynwyd yr adroddiadau canlynol o gyfarfodydd sawl un o Bwyllgorau'r Awdurdod gerbron yr Aelodau i'w hystyried/er gwybodaeth:



- (i) Pwyllgor Rheoli Datblygu a gynhaliwyd ar 19 Hydref 2016
- (ii) Pwyllgor Adolygu Gweithredol a gynhaliwyd ar 7 Rhagfyr 2016.

## 6. Penodi Aelodau PENDERFYNWYD

- a) Penodi Mr AE Sangster ar y Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol, a Mrs G Hayward ar y Pwyllgor Adolygu Gweithredol.
- b) Penodi Mrs G Hayward yn gynrychiolydd yr Awdurdod ar Gynghrair Parciau Cenedlaethol Cymru.

## 7. Dyddiad y Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol

**PENDERFYNWYD** bod dyddiad Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol yr Awdurdod yn cael ei symud o'r 7fed o Fehefin i'r 14eg o Fehefin 2017. Byddai hyn yn caniatáu digon o amser i ddsbarthu'r agenda i'r Aelodau a benodir gan Gyngor Sir Penfro ar yr Awdurdod Parc Cenedlaethol yn eu Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol ar y 25ain o Fai.

*[Cyrrhaeddodd Ms C Gwyther yn ystod ystyried yr eitem ganlynol]*

## 8. Cynllunio Cyllideb Ddrafft 2017/18

Roedd adroddiad y Prif Weithredwr a'r Prif Swyddog Ariannol yn nodi'r cyllidebau Refeniw a Chyfalaf drafft ar gyfer 2017/18 a'r rhagamcanion ar gyfer 2018/19 i 2021/22, ardoll ddrafft 2017/18 ar Gyngor Sir Penfro, y Dangosyddion Materion Ariannol ar gyfer y rhaglen gyfalaf, a'r Strategaeth Fuddsoddi a'r Datganiad Polisi ar Reoli'r Trysorlys ar gyfer 2017/18.

Roedd y gwaith o ddatblygu cyllidebau refeniw a chyfalaf drafft yr Awdurdod ar gyfer 2017/18 wedi'i wneud yn ystod cyfnod heriol parhaus i'r sector cyhoeddus gyda'r gostyngiad cyson blwyddyn ar ben blwyddyn yn y Grant i'r Parc Cenedlaethol a'r Ardoll ddilynol ar Gyngor Sir Penfro. Roedd y setliad yn gyllideb wastad ar gyfer 2017/18 ond roedd cwrdd â'r pwysau ariannol yn gofyn am ddulliau trylwyr o glustnodi arbedion effeithlonrwydd, gwneud y mwyaf o gyfleoedd i gael ffrwd ariannu ddi-graidd ac ail-flaenoriaethu gwariant o fewn y gwasanaethau.

Roedd yr adroddiad yn nodi strategaeth cyllideb yr Awdurdod a'r rhagdybiaethau allweddol oedd yn sail i'r cyllidebau, fel y trafodwyd yn flaenorol gan yr Aelodau mewn gweithdai ar baratoi cyllideb. Dywedwyd bod cadarnhad wedi dod i law oddi wrth Lywodraeth Cymru ar y 23ain o Ionawr, yn ôl y disgwyl, na fyddai cynnydd na gostyngiad yn y Grant craidd i'r Awdurdod a'r Ardoll o'r hyn a dderbyniwyd yn 2016/17.

Roedd croeso mawr i'r ffaith na fyddai gostyngiad yn y grant i'r Awdurdod yn 2017/18, ond roedd targed llywodraeth y DU ar wariant cyhoeddus dros gyfnod y senedd bresennol yn golygu ei bod yn debygol y byddai



gostyngiadau pellach yn y tymor canolig, er na wyddys beth fydd union faint y gostyngiadau hyn. Rhoddwyd ffigurau oedd yn dangos effaith gostyngiadau o 5% a 10% dros y cyfnod o bum mlynedd hyd at 2021/22, a byddai hyd yn oed yr isaf o'r ddau opsiwn hyn yn golygu her sylweddol i'r Awdurdod ei goresgyn os oedd i gydbwyso ei gyllideb, hyd yn oed a derbyn y bydd cynnydd mewn grantiau eraill ac incwm a gynhrychir yn lleol. Rhagwelir y bydd parhau i gynnal gweithdai ar y gyllideb o gymorth i glustnodi meysydd o ad-drefnu a llwyddo i reoli'r heriau a ragwelir i'r gyllideb, a rhoddwyd amlinelliad o'r arbedion a'r arbedion effeithlonrwydd a wnaed hyd yn hyn. Holodd yr Aelodau rai cwestiynau am yr incwm a gynhrychir yn lleol. O ran Canolfan Ymwelwyr Trefdraeth a Chilrhedyn, lle'r oedd rhywfaint o ansicrwydd ynglŷn â natur rhan yr Awdurdod yn y dyfodol, eglurodd y Rheolwr Cyllid bod y costau gweithredol llawn am y flwyddyn ariannol wedi'u cynnwys yn y gyllideb. Roedd ariannu eitemau eraill i'w hystyried gan yr Aelodau yn ddiweddarach yn y cyfarfod, megis prynu System Rheoli Dogfennau a gweddarlledu, hefyd wedi'u cynnwys yn y gyllideb.

Roedd yr adroddiad yn amlinellu manylion y gyllideb gyfalaf fyddai'n gyfanswm o £425,000 yn 2017/18, ac roedd yn cynnwys offer technoleg gwybodaeth newydd, deunydd esboniadol ar ardd furiog Caeriw, tai crwn Castell Henllys, adnewyddu'r ganolfan, prosiectau arbed ynni, adnewyddu'r fflyd, gwaith atgyweirio i'r meysydd parcio, a systemau cynllunio/rheoli dogfennau electronig.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys manylion am gronfeydd wrth gefn yr Awdurdod ar ddiwedd 2016/17, ynghyd â'r balansau a ragwelir ar ddiwedd 2017/18. Roedd hyn yn dangos y byddai'r gwarged a ddisgwylir yn 2016/17 yn rhoi balans ar ddiwedd y flwyddyn yn y cronfeydd wrth gefn cyffredinol o £793,000, ac yna'n disgyn, yn bennaf oherwydd ariannu rhywfaint o'r rhaglen gyfalaf, i £728,000 erbyn diwedd 2017/18. Yn yr un modd, ac am yr un rheswm, disgwylir y bydd y Gronfa Derbyniadau Cyfalaf wrth gefn yn disgyn i £182,000 erbyn diwedd 2017/18. Nodwyd y cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd, sydd wedi'u neilltuo ar gyfer prosiectau penodol, a barnwyd bod y cronfeydd hyn yn briodol ar hyn o bryd, er y gallai newidiadau annisgwyl yn y sefyllfa ariannol ei gwneud yn ofynnol i'r rhain gael eu hadolygu ymhellach.

#### **PENDERFYNWYD:**

- cymeradwyo cyllideb ddrafft 2017/18.
- nodi'r rhagamcanion ariannol ar gyfer 2018/19 i 2021/22

#### **(a) Yr Ardoll ar Gyngor Sir Penfro**

Atgoffodd y Prif Swyddog Cyllid yr Aelodau bod Adran 71 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995, isadran 3, yn pennu'r modd o gyhoeddi'r ardoll i'w



chodi ar Gyngor Sir Penfro. Roedd y datganiad canlynol yn cydymffurfio â'r gofyniad hwn.

**Ardoll ar Gyngor Sir Penfro**



Parc Cenedlaethol  
Arfordir Penfro  
Pembrokeshire Coast  
National Park

Rhaid i'r Awdurdod awdurdodi codi ardoll o £984,885 oddi wrth Gyngor Sir Penfro yn unol ag Adran 71 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 a Rheoliadau Awdurdodau Parciau Cenedlaethol (Ardollau)(Cymru) 1995 OS 1995 Rhif 3019 fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Awdurdodau Parciau Cenedlaethol (Ardollau)(Cymru)(Diwygio) 1996:

• y swm fydd ei angen i dalu am wariant yr Awdurdod yn y flwyddyn dan sylw yn y cyfrif Refeniw yw		£5,522,249
• gwneud y ddarpariaeth sy'n briodol i dalu am hapddigwyddiadau, a'r gwariant hwnnw i'w dalu o'r Cyfrif Refeniw		£Dim
• y swm sydd ei angen i sicrhau bod gweddill digonol gan yr Awdurdod yn ei Gyfrif Refeniw		£ Dim
• y swm sydd ei angen ar yr Awdurdod i dalu am unrhyw ddiffyg a ddygwyd ymlaen o'r flwyddyn ariannol flaenorol		£ Dim
		-----
Is-gyfanswm		£5,522,249
<b>YN LLAI O</b>		
• Grant Adran 72	£2,954,655	
• Incwm a gredydir i'r Cyfrif Refeniw	£1,582,772	
• symiau eraill heb eu cynnwys uchod sy'n debygol o fod ar gael yn ystod y flwyddyn	-63	£4,537,364
	-----	-----
<b>Yr ardoll sy'n ofynnol</b>		<b><u>£984,885</u></b>

Hysbyswyd yr Aelodau bod rhaid rhoi gwybod i Gyngor Sir Penfro beth yw swm yr ardoll swyddogol sy'n ofynnol erbyn y 15<sup>fed</sup> o Chwefror. Argymhellwyd bod yr Awdurdod Parc Cenedlaethol yn parhau â'r trefniadau cyfredol o dderbyn 12 rhandal cyfartal misol ar y 12fed o bob mis calendr, neu cyn hynny, drwy drosglwyddiad banc.

**PENDERFYNWYD** awdurdodi ardoll o £984,885 ar Gyngor Sir Penfro am y flwyddyn 2017/18.



## (b) Dangosyddion Cod Materion Ariannol

Roedd Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) 2003 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod Parc Cenedlaethol ystyried Cod Materion Ariannol Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddu (CIPFA) wrth bennu cyllidebau blynyddol. Roedd y Cod Materion Ariannol yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod ystyried y Dangosyddion Materion Ariannol sy'n cynnwys amcangyfrif o'r gwariant a chyllido a'r union wariant a chyllido, a'r terfynau ar y ddau.

Bwriad y dangosyddion hyn oedd ategu a chofnodi penderfyniadau a wneir yn lleol, ac nid cymharu un awdurdod lleol yn erbyn y llall. Fodd bynnag, gan nad oedd gan yr Awdurdod unrhyw ddyledion yn awr ac nad oedd unrhyw fwriad ar hyn o bryd i fenthycu rhagor o arian gan fod y cynlluniau gwariant cyfalaf i'w hariannu naill ai gan gronfeydd refeniw, cymorth grant allanol neu dderbyniadau cyfalaf, nid oedd sawl un o'r dangosyddion yn berthnasol. Roedd yr adroddiad felly ond yn nodi'r dangosyddion hynny oedd yn berthnasol ar hyn o bryd, a gofynnwyd i'r Aelodau fabwysiadu'r Dangosyddion Materion Ariannol fel y'u cyflwynwyd.

Hefyd, cyflwynodd y Prif Swyddog Cyllid y Strategaeth Fuddsoddi ar gyfer 2017/18 yn unol â'r canllawiau statudol ac i ategu'r system fenthycu ddarbodus. Roedd y Strategaeth hefyd yn ategu dogfen CIPFA "Rheoli'r Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus: Cod Ymarfer a Nodiadau Canllaw Traws-Sector".

### **PENDERFYNWYD** bod yr Aelodau

- a) yn mabwysiadu'r Dangosyddion Materion Ariannol, fel y'u cyflwynwyd.
- b) yn cymeradwyo'r Strategaeth Fuddsoddi a'r Datganiad Polisi ar Reoli'r Trysorlys ar gyfer 2017/18.

*[Dywedodd y Cyngorydd M Williams bod ganddi fuddiant yn yr eitem ganlynol ond arhosodd i mewn yn y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem. Hefyd dywedodd y Cyngorydd P Harries bod ganddo fuddiant yn yr eitem ond ychwanegodd ei fod wedi cael goddefeb gan Bwyllgor Safonau yr Awdurdod i ganiatau iddo siarad a phleidleisio ar faterion oedd yn ymwneud â Chanolfan Ymwelwyr Trefdraeth hyd at 31/03/18.]*

## **9. Canolfan Ymwelwyr Trefdraeth**

Atgoffwyd yr Aelodau bod yr Awdurdod yn eu cyfarfod a gynhaliwyd fis Medi 2016, wedi penderfynu ymgynghori ar gynigion i newid y modd yr oedd gwasanaethau gwybodaeth i ymwelwyr yn cael eu cyflwyno yn Ninbych-y-pysgod ac yn Nhrefdraeth yn y dyfodol. Roedd yr Aelodau yn unfrydol yn eu dymuniad i weld yr Awdurdod yn newid y modd yr oedd yn



darparu gwybodaeth ar hyn o bryd er mwyn buddsoddi mewn pecyn o fentrau newydd oedd â'r nod o gynnal twf yr economi ymwelwyr ehangach yn Sir Benfro drwy ddarparu gwasanaeth mwy teg ar draws pob ardal o'r Parc Cenedlaethol.

Yn dilyn hynny lansiodd yr Awdurdod ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol ar y newidiadau arfaethedig i'r gwasanaethau i ymwelwyr, a chynhaliwyd nifer o gyfarfodydd ffurfiol ac anffurfiol gyda grwpiau o randdeiliaid. Yn y cyfarfod diwethaf o'r Awdurdod, cytunodd yr Aelodau i gau Canolfan Ymwelwyr y Parc Cenedlaethol yn Ninbych-y-pysgod tra'n rhoi mwy o amser i swyddogion yr Awdurdod weithio gyda'r gymuned yn Nhrefdraeth i archwilio opsiynau eraill o gyflwyno gwybodaeth i ymwelwyr yn y dyfodol.

Cynhaliwyd cyfarfodydd gyda'r gymuned, ac roedd y cyfarfodydd hynny yn gadarnhaol iawn ac yn dangos parodrwydd i archwilio modelau newydd o sicrhau dyfodol adeilad y Ganolfan Ymwelwyr yn Nhrefdraeth. O ganlyniad, roedd y gymuned wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r swyddogion i weld a allai'r gymuned brynu'r adeilad i'w reoli a'i redeg yn y dyfodol. Megis cychwyn oedd y trafodaethau hyn, ond roedd y gymuned, dan arweiniad Cyngor Tref Trefdraeth, yn awyddus i ymchwilio a allai'r Ganolfan Ymwelwyr yn Nhrefdraeth ddod â nifer o wasanaethau lleol ynghyd, drwy gael ei rheoli gan y gymuned, gan sicrhau bod drysau adeilad sy'n ymroddedig i wasanaethu ymwelwyr yn Nhrefdraeth yn parhau ar agor ac ar yr un pryd yn gartref i nifer o wasanaethau cymunedol pwysig yn ogystal.

Fodd bynnag mae datblygu achos busnes ar gyfer prynu'r Ganolfan yn cymryd amser, a'r bwriad yw rhoi chwe mis i'r Cyngor Tref a'r gymuned leol ddatblygu ateb tymor hir ymarferol. Er mwyn hwyluso hyn, y bwriad oedd cadw Canolfan Ymwelwyr Trefdraeth ar agor tan ddiwedd mis Hydref 2017.

Dywedwyd yn y cyfarfod bod e-bost wedi dod i law ers ysgrifennu'r adroddiad oddi wrth Cyngor Tref Trefdraeth yn awgrymu y byddent yn dymuno prynu'r adeilad. Fodd bynnag, ychwanegodd y Prif Weithredwr nad oedd hyn yn newid yr argymhelliad bod y Ganolfan yn parhau ar agor tan ddiwedd tymor 2017, ac y byddai unrhyw gynigion pendant ynglŷn â dyfodol yr adeilad yn cael ei ddwyn yn ôl i'r Awdurdod am benderfyniad.

Cytunodd yr Aelodau bod hwn yn ymateb ymarferol fyddai'n caniatáu i drafodaethau barhau, a'r gobaith oedd, yn dilyn dechrau anodd, y gallai perthynas waith dda ddatblygu gyda chynrychiolwyr y gymuned.



## **PENDERFYNWYD**

- a) bod y cyfnod o ymgysylltu â'r gymuned ynghylch newidiadau posibl i ddarparu gwasanaethau i ymwelwyr yn Nhrefdraeth yn y dyfodol yn cael ei ymestyn tan y 1<sup>af</sup> o Awst 2017; a
- b) bod Canolfan Ymwelwyr Trefdraeth yn cael ei chadw ar agor yn ystod y cyfan o dymor 2017 (diwedd mis Hydref 2017) heb unrhyw newidiadau i'r lefelau presennol o wasanaeth a/neu oriau agor.

[Roedd y Cynghorwyr P Harries ac M Williams wedi ymatal rhag pleidleisio.]

### **10. System Rheoli Dogfennau - Mynediad i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth**

Dywedwyd nad oedd gan yr Awdurdod system ar hyn o bryd o reoli dogfennau (DMS) a bod yr Awdurdod yn un o ddim ond tri Awdurdod Cynllunio Lleol yng Nghymru nad oedd yn darparu'r gwasanaeth hwn. Byddai'r DMS yn caniatáu i fanylion a chynlluniau pob cais cynllunio fod ar gael yn electronig ar y wefan gan olygu gwell lefel o wasanaeth i gwsmeriaid; galluogi swyddogion i weithio o bell, ac yn golygu effeithlonrwydd mewn gweithdrefnau megis gostyngiad mewn costau argraffu / postio / storio ffeiliau ac ati

Roedd yr adroddiad yn nodi costau'r system DMS a ddarparwyd gan gwmni Agile, sef darparwr system 'cefn swyddfa' yr Awdurdod ar hyn o bryd a ystyrid yn system fwyaf priodol a chost-effeithiol i'r Awdurdod. Cynigiwyd hefyd i fanteisio ar y cyfle, tra bod y DMS yn cael ei osod, i gyflwyno offer ychwanegol fyddai'n caniatáu i swyddogion weithio o bell.

Roedd cost y DMS, sef £63,200 am ei osod, a £12,132 am waith cynnal a chadw blynyddol, yn uwch na £25,000, oedd yn golygu bod y gwaith yn gorfod cydymffurfio â rheoliadau ariannol yr Awdurdod sy'n ymwneud â Chontractau Mawr, a byddai dyfarnu'r contract hwn yn gofyn am atal y rheoliad hwn dros dro.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo amrywio'r safonau ariannol a chymeradwyo'r cais i brynu system rheoli dogfennau ac eitemau/offer ategol ar gyfer y gwasanaeth Rheoli Datblygu fel y nodwyd yn yr adroddiad.

### **11. Gweddarlledu**

Atgoffwyd yr Aelodau eu bod wedi gofyn i'r swyddogion ymchwilio i'r posibilrwydd o weddarlledu cyfarfodydd yr Awdurdod, er y nodwyd nad oedd yn ofynnol i'r Awdurdod wneud hynny ar hyn o bryd. Fodd bynnag, er mwyn bod yn agored, yn atebol a gwneud busnes yr Awdurdod yn fwy hygyrch i'r cyhoedd ehangach, roedd y mater yn cael ei ystyried.

Roedd yr adroddiad yn nodi'r opsiynau oedd ar gael, sef yn gryno, gosod yr offer angenrheidiol yn ystafell gyfarfod yr Awdurdod ym Mharc Llanion



neu ddefnyddio cyfleusterau mewn lleoliad arall, megis yr Ystafell Pwyllgorau yn Neuadd y Sir, Hwlfordd. Roedd gweddarlledu o'r ystafell gyfarfod ym Mharc Llanion yn cael ei gymhlethu ymhellach gan y ffaith mai Portacabin yw'r adeilad ac felly yn ôl pob tebyg byddai angen inswleiddio neu osod system gwrthsain yn yr adeilad. Rhoddwyd costau bras pob opsiwn ac er bod gweddarlledu o Neuadd y Sir yn llai costus, roedd goblygiadau o ran costau teithio swyddogion a'r amser a dreulir yn aros i gyflwyno eu hadroddiadau yn ogystal â'r canfyddiad cynyddol gan y cyhoedd bod yr Awdurdod yn rhan o Gyngor Sir Penfro.

Siaradodd sawl Aelod o blaid gweddarlledu, gan nodi'r manteision gan gynnwys gwneud yr Awdurdod yn fwy hygyrch i'r cyhoedd gyda'r Pwyllgor Rheoli Datblygu yn cael ei amlygu fel yr un mwyaf tebygol o gael ei wyllo, er y byddai rhai eitemau yr Awdurdod yn creu rhywfaint o ddiddordeb. Byddai gweddarlledu hefyd yn caniatáu i aelod o'r cyhoedd wyllo un drafodaeth sy'n parhau am ddeng munud heb fod wedi gorfod teithio milltiroedd i'r gyfarfod i wneud hynny. Fodd bynnag, roedd pryderon bod hyn yn swm mawr o arian i Awdurdod bach ac nid oedd unrhyw dystiolaeth bod galw am y cyfryw gyfleuster. Atebodd y swyddogion bod ffigurau gwyllo gweddarlledu cyfarfodydd awdurdodau eraill yn uchel yn y lle cyntaf ond yn gostwng yn sylweddol dros amser.

Nodwyd hefyd mai'r ddadl fwyaf o blaid gweddarlledu oedd na allai fod unrhyw ddadlau am yr hyn a ddywedwyd mewn gyfarfod gan y byddai trawsgrifiad ar gael. Serch hynny, teimlai rhai Aelodau bod costau gweddarlledu o'r ystafell gyfarfod ym Mharc Llanion yn rhy uchel. O gymryd golwg tymor hir, barn pobl eraill oedd y byddai addasu'r ystafell gyfarfod yn fwy cost effeithiol. Awgrymwyd treialu gweddarlledu cyfarfodydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu ac o bosibl cyfarfodydd yr Awdurdod Parc Cenedlaethol yn yr Ystafell Bwyllgor, Neuadd y Sir, dros gyfnod o ddeuddeg mis, er yr awgrymwyd bod peth trafodaeth yn digwydd gyda'r Cyngor Sir ynglŷn â chostau.

Dyweddodd un Aelod bod y Cynghorwyr oedd yn aelodau o'r Awdurdod ar fin dod i ddiwedd eu cyfnod yn y swydd, a chynigiodd bod y penderfyniad ar gweddarlledu yn cael ei ohirio tan ar ôl yr Etholiadau Llywodraeth Leol fis Mai, ac eiliwyd y cynnig hwn. Fodd bynnag, o'i roi i bleidlais cafodd y cynnig ei wrthod.

Wedyn tynnwyd sylw at y ffaith bod yr argymhelliad yn yr adroddiad oedd gerbron yr Aelodau yn gofyn am gytundeb mewn egwyddor i weddarlledu cyfarfodydd o'r flwyddyn 2017 ymlaen cyn ystyried y ffordd ymlaen i alluogi i weddarlledu ddigwydd. Felly, cynigiwyd ac eiliwyd yr egwyddor o weddarlledu cyfarfodydd. Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig hwn a chafodd y cynnig ei wrthod.





**PENDERFYNWYD** peidio â mabwysiadu'r egwyddor o weddarlledu cyfarfodydd.

## 12. Agendâu Electronig

Dywedwyd ei bod yn ofynnol yn gyfreithiol yn ôl Deddf Llywodraeth Leol 1972 i Aelodau gael eu galw yn ffurfiol i fynychu cyfarfodydd yr Awdurdod. Fodd bynnag roedd llawer wedi newid ers hynny ac roedd nifer o Awdurdodau heddiw yn darparu eu hagendâu a'u papurau yn electronig. Roedd yr adroddiad yn amlinellu nifer o ddulliau y gellid eu defnyddio i ddsbarthu papurau yn electronig, er bod y broses rataf yn golygu newid papurau i fformat PDF y gellid wedyn eu he-bostio i'r Aelodau neu eu lawr-lwytho o wefan/allrwyd yr Awdurdod. Byddai'r arbedion ariannol o wneud hyn yn rhyw £4,500 y flwyddyn ar sail ffigurau 2015/16.

Teimlai sawl Aelod y byddai'n fanteisiol derbyn copi papur o'r wÿs i gyfarfod, yn yr un modd ag yr oedd Cyngor Sir Penfro yn ei wneud, gan fod hyn yn gymorth defnyddiol i gofio. Fodd bynnag, roedd cytundeb ar y cyfan bod newid drosodd i gyfarfodydd di-bapur, er bod hynny yn anodd i rai addasu, yn werth chweil.

Cafodd ei gydnabod yn yr adroddiad y byddai rhai Aelodau o bosibl yn dymuno parhau i dderbyn copi caled o'r holl bapurau, a nodwyd bod Cyngor Sir Penfro yn codi tâl am hyn. Barnai un Aelod y byddai codi tâl o'r fath yn annheg ac y byddai'n anfantais i'w allu i fod yn Aelod effeithiol. Cynigiwyd felly bod yr Aelodau yn mabwysiadu'r opsiwn o dderbyn agendâu a phapurau electronig o ddyddiad Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol yr Awdurdod fis Mehefin, gydag Aelodau unigol yn gallu hysbysu'n ysgrifenedig ar ddechrau'r flwyddyn a ydynt yn dymuno derbyn copi papur o'r wÿs, agenda a/neu'r papurau llawn, neu i dderbyn papurau yn unig ar ffurf electronig. Cynigiwyd hefyd i beidio â chodi tâl pe byddai'r Aelodau yn dymuno derbyn copïau papur.

### **PENDERFYNWYD:**

- a) bod yr Aelodau yn mabwysiadu'r opsiwn o dderbyn agendâu a phapurau yn electronig o ddyddiad Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol yr Awdurdod fis Mehefin, gydag Aelodau unigol yn gallu hysbysu'n ysgrifenedig ar ddechrau'r flwyddyn a ydynt yn dymuno derbyn copi papur o'r wÿs, agenda a/neu'r papurau llawn, neu i dderbyn papurau yn unig ar ffurf electronig; a
- b) pheidio â chodi tâl am ddarparu copïau papur.

## 13. Adolygu Strwythur Pwyllgorau yr Awdurdod

Roedd yr adroddiad yn amlinellu Strwythur Pwyllgorau'r Awdurdod ar hyn o bryd, gan egluro mai'r tro diwethaf i'r strwythur gael ei adolygu yn llawn oedd yn 2010. Gan y byddai rhai newidiadau i Aelodaeth yr Awdurdod yn 2017 yn sgîl yr Etholiadau Llywodraeth Leol, bernid ei bod yn briodol bod



yr Aelodaeth bresennol yn adolygu'r strwythur presennol, a gofynnwyd am farn yr Aelodau.

Roedd yr Aelodau o'r farn, ar y cyfan, bod y strwythur presennol yn addas at y diben. Fodd bynnag, dywedodd sawl un bod y Pwyllgor Adolygu Gweithredol, yr oeddent yn aelodau ohono, yn ddiddorol iawn ac yn llawn gwybodaeth, ond yn cyfrannu braidd dim. Bernid bod y pwyllgor yn canolbwyntio fwy ar ddarparu trosolwg o waith gweithredol yr Awdurdod, oedd yn ddi-os, yn gwneud yr Aelodau yn fwy gwybodus ac felly'n gallu gwneud gwell penderfyniadau, yn hytrach na mynd i'r afael â'r gwaith o graffu. Awgrymwyd y dylai fod mwy o grwpiau gorchwyl a gorffen i gyflawni'r swyddogaeth hon. Awgrymodd y Prif Weithredwr y gallai cylch gorchwyl y pwyllgorau adolygu gael ei roi ar agenda eu cyfarfodydd nesaf fel y gallai trafodaeth bellach ac unrhyw argymhellion ar gyfer eu gwella gael ei wneud i'r Awdurdod.

Hefyd codwyd yr angen am gynnal cydbwysedd traean-dau draean rhwng y rhai a benodir gan Lywodraeth Cymru a Chynghorwyr Sir, ond eglurodd y Prif Weithredwr bod hyn yn un o ofynion Deddf yr Amgylchedd. Fodd bynnag, roedd o'r farn y gallai'r adolygiad Tirweddau'r Dyfodol Cymru i'w gyhoeddi ar y 15<sup>fed</sup> o Fawrth argymhell newidiadau i aelodaeth yr Awdurdodau.

**PENDERFYNWYD** peidio â gwneud unrhyw newid i strwythur presennol y Pwyllgorau, ond y dylid edrych ar Gylch Gorchwyl y Pwyllgorau Adolygu yn eu cyfarfodydd nesaf.

#### **14. Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus**

Dywedwyd bod yr Awdurdod wedi cael ei wahodd i ddod yn Aelod o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus adeg ei ffurfio. Roedd gan y Bwrdd bedair swyddogaeth; paratoi a chyhoeddi asesiad o gyflwr llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Sir Benfro; paratoi a chyhoeddi Cynllun Llesiant lleol ar gyfer Sir Benfro, pennu amcanion lleol a'r camau y mae'n bwriadu eu cymryd i ddiwallu'r amcanion hynny; cymryd pob cam rhesymol i ddiwallu'r amcanion lleol yr oedd wedi'u pennu; ac i baratoi a chyhoeddi adroddiad blynyddol sy'n nodi'r camau ymlaen a gymerwyd gan y Bwrdd i ddiwallu'r amcanion lleol.

Rhaid oedd cytuno ar yr Asesiad Llesiant cyntaf erbyn mis Mawrth 2017, tra bod rhaid cytuno ar y Cynllun Llesiant cyntaf erbyn mis Mai 2018. Roedd y Cynllun Llesiant yn debygol o fod yn ddogfen allweddol fyddai'n dylanwadu ar waith yr Awdurdod a'i bartneriaid yn y sector cyhoeddus o 2018 ymlaen.

Fel aelod o'r Bwrdd, byddai'n ofynnol i'r Awdurdod gytuno ar Asesiad Llesiant a Chynllun Llesiant Sir Benfro, a'r disgwyl oedd y byddai penderfyniad yn cael ei wneud i gytuno ar yr Asesiad mewn cyfarfod i'w



gynnal ar yr 21<sup>ain</sup> o Fawrth 2017. Byddai'r fersiynau ymgynghori o'r dogfennau yn cael eu rhannu gyda'r Aelodau, ond roedd yr amserlen yn dynn iawn ar gyfer cymeradwyo'r Asesiad Llesiant yn benodol, a gofynnwyd i'r Aelodau ddirprwyo awdurdod i'r Prif Weithredwr i gymeradwyo'r Asesiad Llesiant a'r Cynllun Llesiant.

Hefyd roedd y Bwrdd yn ceisio cyfraniad ariannol gan nad oedd cyllideb benodol wedi'i neilltuo i'r Bwrdd. Roedd cais am gyfraniad ariannol o hyd at £5,000 tuag at greu adnodd canolog i'w ddefnyddio i gynnal ei waith, a gofynnwyd i'r Aelodau gytuno ar hyn.

Roedd rhai Aelodau yn pryderu nad oedd y Bwrdd wedi bod yn effeithiol o ran cyflawni unrhyw beth eto, ond atebodd y Prif Weithredwr bod gwaith ar y gweill. Roedd Aelodau eraill yn bryderus y byddai'r Bwrdd yn cael ei gymryd drosodd gan Ranbarth Dinas Abertawe a gofynnwyd am i'r Awdurdod wneud cais i fod yn rhan o'r corff hwnnw, er mwyn ceisio sicrhau bod ei ffocws yn ehangach na dim ond y Ddinas a Sir Abertawe. Cytunodd y Prif Weithredwr i ysgrifennu llythyr i'r perwyl hwnnw.

#### **PENDERFYNWYD:**

- a) bod y cyfrifoldeb am gytuno ar yr Asesiad Llesiant lleol a'r Cynllun Llesiant lleol yn cael ei ddirprwyo i'r Prif Weithredwr.
- b) bod swm o £5,000 yn cael ei gyfrannu i gynnal gwaith Bwrdd Gwasanaethau Lleol Sir Benfro.

#### **15. Cais Interreg Cymru - Iwerddon (Llwybrau Celtaidd 2017-2019)**

Dywedwyd bod y rhaglen Cydweithio Tiriogaethol Ewropeaidd Iwerddon Cymru 2014-2020 (ETC) yn rhaglen forol oedd yn cysylltu sefydliadau, busnesau a chymunedau ar arfordir gorllewin Cymru gydag arfordir De Ddwyrain Iwerddon. Roedd y cais a nodir uchod yn un o deulu o raglenni ETC (a elwir yn rhaglenni Interreg yn fyr) oedd yn cynnig cyfleoedd i'r rhanbarthau yn yr UE weithio gyda'i gilydd i fynd i'r afael â heriau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol oedd yn gyffredin iddynt.

Yn hanesyddol ychydig iawn o ran yr oedd yr Awdurdod Parc Cenedlaethol wedi'i gael mewn prosiectau Interreg, ond drwy fwy o weithio rhanbarthol ar fentrau twristiaeth, mae partneriaeth gref wedi'i meithrin gyda Chynghorau Sir Ceredigion a Chaerfyrddin oedd yn caniatáu i ranbarth Gorllewin Cymru wneud cais i'r rhaglen Interreg yn 2016. Roedd y cais yn gais dan Flaenoriaeth 3 y Rhaglen Interreg oedd yn canolbwyntio ar 'wireddu potensial asedau naturiol a diwylliannol er mwyn cynyddu nifer yr ymwelwyr i'r cymunedau ar arfordir Cymru ac Iwerddon'.

Nod y prosiect Llwybrau Celtaidd oedd denu'r nifer sylweddol o ddarpar ymwelwyr sy'n gyrru drwy'r cyrchfannau a nodir gyda lleoliad terfynol arall mewn golwg, i aros a thalu am lety ymwelwyr, yn ogystal â denu



ymwelwyr newydd i groesi Môr Iwerddon/Celtaidd, ac roedd manylion pellach am y modd y byddai hyn yn cael ei wireddu wedi'u nodi yn yr adroddiad.

Cyfanswm cais y prosiect oedd €2.2m, gyda chyfraniad yr Awdurdod mewn da o amser y staff yn dod i gyfanswm o tua 60k fel y nodwyd yn yr adroddiad. Dywedwyd er y gallai nifer y staff sy'n rhan o'r rhaglen gynyddu wrth i'r Cam 2 o'r cais ddatblygu, na fyddai cyfanswm cyfraniad yr Awdurdod mewn da yn cynyddu'n uwch na'r ffigwr a nodir uchod (h.y. £42,827.18) dros gyfnod y rhaglen tair blynedd.

Dywedwyd bod y cyfraniad mewn da a nodir uchod yn fanwl iawn i lawr i'r geiniog olaf, ac awgrymwyd bod cyfraniad mewn da o hyd at £50k yn cael ei gytuno. Sicrhaodd y Swyddog Cyllid yr Aelodau y byddai cofnodion cywir i gofnodi cyfraniad yr Awdurdod yn cael eu cadw.

**PENDERFYNWYD** bod cyfraniad mewn da yr Awdurdod Parc Cenedlaethol o hyd at £50k i'r prosiect Interreg Llwybrau Celtaidd yn cael ei gytuno.

